

DENBIGH

A Pictorial History cyfrol 3


gan

R. M. Owen, Gwasg Carreg Gwalch
96tud. Pris £8.50

Yn y drydedd gyfrol mae'r awdur yn dilyn ystod o driehwarter canrif gyda chlyfres o hen gardiau post a lluniau eraill yn darlunio hanes Dinbych. Mae Dinbych yn ffordus o gael hanesydd lleol sy'n gyfarwydd â hanes y dref hynafol hon. Nid yn unig fod y lluniau yn ddiddorol ond maent hefyd o werth i'r hanesydd gan eu bod yn adlewyrchu agweddau pellach o'r datblygiad cymdeithasol, gwleidyddol, crefyddol a diwydiannol a ddigwyddodd yn y dref yn ystod y cyfnod hwn.

I un sy'n ymweld â'r dref ddwywaith yr wythnos ers yn agos i bedair blynedd, roedd cael cip ar sut oedd y dref yn edrych yr adeg honno a lluniau'r amryfal weithgareddau a'r cymeriadau yn werthchweil imi.

Mae'r gyfrol yn cychwyn gyda llun o Eglwys Dewi Sant yn 1841; rali yr Ysgolion Sul c1914 gyda'r sgwâr yn llawn o bobol yn cyhwan baneri; ac ar 15 o Hydref 1937, cynhaliwyd cinio yn Stiwt yr Eglwys, a cheir



lun o bum gŵr enwog yn eistedd yn y seddau blaen, sef Dr. J.V. Rees-Roberts arbenigwr o Heol Harley; Y Barnwr Artemus Jones; Dr. T. Gwyn Jones, Athro Llên Cymru; Dr. W. M. Edwards Prif Arolygydd Ysgolion Cymru a Mr. A. G. Prys-Jones bardd Eingl Gymreig adnabyddus ei ddydd.

Cefais bori yn y gyfrol yn waith ymlaciol iawn ac mae'n werth ei phrynu.

Mae R. M. Owen yn hannu o Ddinbych a bu'n brifathro yn y Mwynglawdd am sawl blwyddyn cyn symud yn ôl i Ninbych i fod yn brifathro ar Ysgol Pwll y Grawys ac yna ar Ysgol Gynradd Heulfre.

IAITH SIR FFLINT: GEIRFA A THAFODIAITH Y GYMRAEG YN YR HEN SIR

gan


Goronwy Wynne, Cyngor Sir y Fflint.
Gwasg Gomer, 444 tud. Pris, £14.99
(Clawr meddal)

Y mae'r gyfrol swmpus hon, o ran cynnwys ac o ran maint - mae hi braidd yn drom i'w thrin - yn ffrwyth lafur caled Dr. Goronwy Wynne. Yn ôl yr awdur, mae o wedi casglu 'rhyw 4,000 o eiriau sydd, neu a fu, yn rhan o iaith y Sir'. Yn naturiol, felly, y mae swm sylweddol o'r eirfa yn perthyn i'r Gymraeg ledled y Gogledd, os nad Cymru gyfan, gan mai'r geiriau hyn yw eraidd yr iaith.

Maent wedi'u rhestru yn ôl yr Wyddor, ac ym mhob achos, ceir ymdriniaeth o'r gair gan ddilyn trefn Geiriadur Prifysgol Cymru. Rhoddir eifennau'r gair neu ymdriniaeth o'i darddiad, y rhan ymadrodd, y ffurf luosog a'i

ystyr (neu ystyron). Rhoddir diffiniad o bob ystyr. Hefyd rhoddir enghreifftiau o'r gair ar waith, yn seiliedig ar ffynonellau cyhoeddus (o weithiau Daniel Owen ymlaen), recordiau o siaradwyr yng nghasgliad Amgueddfa Werin Cymru a chasgliadau eraill, cyfweiliadau â siaradwyr heddiw a phrofiad personol dros nifer fawr o flynyddoedd.

Gwneir sylwadau ar ddisbarthiad geiriau yn ddaearyddol, eu hynganiad a'r defnydd



ohonynt ar lafar. Nodir pa mor gyffredin yw'r defnydd o'r gair, a cheir sylwadau ar y cynnydd neu'r lleihad yn y defnydd ohono yn ystod yr ugeinfed ganrif, lle bo hynny'n berthnasol.

Gan mai astudiaeth o dafodiaith hynod Sir Fflint yw hon, hoffwn petai'r geiriau/ymadroddion arbennig i'r Sir wedi'u hargraffu mewn print brasach neu ag * with yr enw, fel y gellir cael hyd iddynt yn rhwyddach. Mae angen tipyn o ddyfalbarhad i fynd trwyddi fesul tudalen i chwilio am y geiriau arbennig hyn.

Dyma ychydig o enghreifftiau a dynnodd fy sylw i:

cymowta - crywdro o gwmpas, galifantio
am - amcan/ syniad cwtrin - cythgam/
un garw

Jobins maip - Ponsh maip (potch yn y de)

cwts - cuddfan / gorchudd

hofel - sied agored

dene - dyna

dondio - dweud y dre.

llymrig - llwm, noeth; llipa

curio - nychu, dihoeni, gwywo

ffrec - clep, baldordd, gwag-siarad

chwidr - byrbwyll, gwyllt, brysiog

diwarthu - ymgeleddu corff marw

Sylwaf fod nifer o'r geiriau sy'n ymddangos yn ddiethr ar yr olwg gyntaf wedi'u Cymreigio o'r Saesneg:

tsienj, *twts*, *teipreitar*, *eiyrmongar*,
cremjwg

Ond rhaid cofio mai nid llyfr darllen mo hwn ond cyfeirlyfr, yn hytrach, i'r sawl sy'n ymddiddori mewn leithyddiaeth. (Trueni am y gwallau treiglo yn y Cyflwyniad a'r camsillafu yn y broliant ar y cefn)

Rhaid llongyfarch Dr Wynne ar ei ddyenwch a'i ymrwymiad i'w sir enedigol, gan sicrhau nad yw'r dafodiaith arbennig hon yn mynd yn anghof.


Lis Williams

Arwerthiant Llyfrau William Jones

Diddorol oedd darllen erthygl Llewelyn G. Chambers ar 'Trichannlwyddiant y symbol pi' yn rhifyn y gaeaf o'r Casglwr.

Roedd arwerthiannau pwysig o Lyfrgell Ieirll Macclesfield yn ystod 2004 a 2005 gan Gwmni Sotherby. Llyfrgell oedd hon a grynhowyd yn bennaf gan William Jones pan yng ngwasanaeth y cyntaf o Ieirll Macclesfield. Tyfodd i fod yn un o'r llyfrgelloedd preifat mwyaf a phwysicaf yn y byd o lyfrau gwyddonol a mathemategol.

Cynhyrchwyd chwe chatalog i gyd ac mae erthyglau diddorol yng nghatalogau 2 a 4 ar gyfnod William Jones yng Ngastell Shirburn. Roedd dau lyfr William Jones yn y bumed arwerthiant a dyma eu prisiau:



Wyneb ddalen: 'Synopsis Palmariorum Matheseos' a werthwyd yn Sotherby am £10,800.

'A New Compendium of the whole Art of Navigation' (1705) - £3,840 (amcanbris - £1,500 - £2000)

'Synopsis palmariorum matheseos' (1706) - £10,800 (amcanbris - £500 - £700)

Gwerthwyd hefyd yn y chweched arwerthiant lyfrau y Cymro Robert Recorde

The whetstone of witte (1557) - £7,800 (amcanbris - £1,500 - £2,000) - y llyfr cyntaf i ddefnyddio symbol hafal =.

The grounde of artes (1561) - £15,600 (amcanbris - £3,500 - £4,000)

Copi arall o'r uchod (1668) yn cynnwys ychwanegiadau gan John Dee a John Mellis £1,200 (amcanbris - £300 - £500).

Mae gen i gopi sbar o gatalog 4, 5, a 6 sy'n cynnwys awduron D-Z ar gael i'r neb sydd â diddordeb yn y llyfrau. Buaswn yn barod i'w hanfon i'r cyntaf i'r felin am bris cludiant. (Maent yn drwm iawn!)

Ted Huws